# Cylch Gorchwyl ar gyfer Bwrdd Pensiynau Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf

## Cyflwyniad

Pwrpas y ddogfen yma yw nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd Pensiynau Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf. Mae'n cynrychioli'r rheolau sy'n nodi sut y bydd y Bwrdd Pensiynau yn cael ei gyfansoddi a sut y bydd yn gweithredu o ddydd i ddydd.

## Swyddogaeth y Bwrdd Pensiynau Lleol

Yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, adrannau 5(1) a 5(2), swyddogaeth y Bwrdd Pensiynau yw helpu Awdurdod Gweinyddu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac yntau'n Rheolwr Cynllun, i wneud y canlynol:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Prif Reoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion sy'n cael eu pennu mewn perthynas â'r CPLlL gan y Rheolydd Pensiynau; a
- Sicrhau llywodraethu a gweinyddu effeithiol ac effeithlon o'r CPLlL gan y Rheolwr Cynllun.

Mae’n werth nodi bod rheoliad 106(6) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 yn nodi bod gan Fwrdd Pensiwn Lleol y pŵer cyffredinol i wneud unrhyw beth sydd â’r nod o hwyluso’r broses o gyflawni ei swyddogaethau, neu sy’n cynorthwyo’r broses neu’n gysylltiedig â hi.

## Aelodau’r Bwrdd Pensiynau

Bydd y Bwrdd Pensiynau yn cynnwys 4 aelod ac yn cael ei gyfansoddi fel a ganlyn:

i) Dau gynrychiolydd cyflogwyr;

ii) Dau gynrychiolydd aelodau;

Bydd nifer cyfartal o gynrychiolwyr Aelodau a Chyflogwyr yn cael eu penodi fel aelodau’r Bwrdd Pensiynau

## Penodi Aelodau i'r Bwrdd Pensiynau

Mae Rheolwr y Cynllun wedi dirprwyo penderfyniadau penodi i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiynau ddangos eu bod yn gallu cynrychioli cyflogwyr ac aelodau'n effeithiol a bod ganddyn nhw'r profiad a'r gallu perthnasol i gyflawni'r swyddogaeth.

Defnyddir y broses benodi gychwynnol i ddewis Cadeirydd y Bwrdd Pensiynau Lleol. Caiff effeithiolrwydd y Cadeirydd ei adolygu bob blwyddyn gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

Bydd pob un o aelodau'r Bwrdd Pensiynau, gan gynnwys y Cadeirydd, yn gwasanaethu am ddwy flynedd. Mae modd ymestyn y cyfnod yma yn amodol ar gytundeb y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ar ran Rheolwr y Cynllun.

**Taliadau i'r Bwrdd Pensiynau**

Bydd 'cynrychiolwyr Aelodau' sy'n gwasanaethu ar y Bwrdd Pensiynau yn derbyn taliadau yn unol â'r cyfraddau / treuliau y cytunwyd arnyn nhw gan Reolwr y Cynllun. Rhaid gwneud cais priodol am daliad i'r Awdurdod Gweinyddu ar ôl pob cyfarfod o'r Bwrdd Pensiynau.

**Terfynu Aelodaeth**

Ac eithrio pan ddaw cyfnod gwasanaeth i ben, gall aelodaeth o'r Bwrdd gael ei therfynu drwy gytundeb unfrydol aelodau eraill y Bwrdd Pensiynau mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol. Gallai rhesymau am derfynu aelodaeth gynnwys y canlynol:

- mae gwrthdaro buddiannau yn codi mewn perthynas ag aelod, a does dim modd rheoli'r sefyllfa yn unol â pholisi gwrthdaro buddiannau'r Bwrdd Pensiynau;
- mae aelod yn marw neu'n methu gwasanaethu bellach;
- mae aelod yn cael ei benodi'n swyddog yr Awdurdod Gweinyddu gyda chyfrifoldeb am gyflawni swyddogaethau o dan y Rheoliadau;
- mae aelod yn dymuno ymddiswyddo;
- mae aelod yn peidio â chynrychioli ei grŵp cynrychiadol bellach, er enghraifft, os yw cynrychiolydd cyflogwr yn gadael ei swydd gyda'r cyflogwr ac felly nad yw'n gallu cynrychioli cyflogwyr y Gronfa bellach; neu
- mae aelod yn methu â mynychu cyfarfodydd neu gydymffurfio mewn ffordd arall â'r gofynion sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r Bwrdd Pensiynau.

**Cworwm**

Bydd gan y Bwrdd Pensiynau gworwm ffurfiol o dri aelod. Chaiff neb arall fynychu cyfarfodydd yn lle'r aelodau. Fydd unrhyw gynghorwyr neu swyddogion sy'n bresennol yn y cyfarfodydd ddim yn cyfrif tuag at y cworwm. Os yw'r Cadeirydd yn absennol, gall aelodau'r Bwrdd Pensiynau sy'n bresennol ddewis rhywun arall i gadeirio'r cyfarfod (ar yr amod bod digon yn bresennol ar gyfer cworwm).

**Gweinyddiaeth ac Amlder Cyfarfodydd**

Bydd Rheolwr y Cynllun yn hysbysu holl aelodau'r Bwrdd Pensiynau am gyfarfod y Bwrdd Pensiynau o leiaf 1 (un) mis ymlaen llaw. Bydd agendâu a phapurau'n cael eu dosbarthu ar ffurf electronig (os oes modd, ac oni bai fod cais yn cael ei wneud am gopi caled)

o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd Rheolwr y Cynllun yn sicrhau bod cofnod ffurfiol o drafodion y Bwrdd Pensiynau yn cael ei gadw ar ffurf cofnodion. Ar ôl i Gadeirydd y Bwrdd Pensiynau gymeradwyo'r cofnodion, byddan nhw'n cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Bwrdd Pensiynau a'u cyhoeddi maes o law ar wefan Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (http://www.rctpensions.org.uk/Home.aspx).

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal o leiaf ddwywaith ym mhob blwyddyn ariannol.

Fydd cyfarfodydd y Bwrdd Pensiynau ddim yn agored i'r cyhoedd fel arfer, ond mae modd mynychu cyfarfodydd, ac annerch y Bwrdd Pensiynau, yn ôl disgresiwn y Cadeirydd (bydd angen cael caniatâd gan y Cadeirydd cyn y cyfarfod i wneud hynny).

**Cod Ymddygiad**

Bydd disgwyl i Aelodau'r Bwrdd Pensiynau ddeall pwysigrwydd "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" a chydymffurfio â nhw:

1. Anhunanoldeb – Dylai'r rhai sy'n dal swydd gyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig. Ddylen nhw ddim gwneud hynny er mwyn ennill yn ariannol neu fanteisio mewn ffordd arall, er budd eu teulu/ffrindiau neu nhw eu hunain.
2. Uniondeb – Ddylai'r rhai sy'n dal swydd gyhoeddus ddim rhoi eu hunain mewn sefyllfa o rwymedigaeth ariannol neu unrhyw rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu ar y ffordd maen nhw'n cyflawni eu dyletswyddau swyddogol.
3. Gwrthrychedd – Wrth gynnal busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai'r rhai sy'n dal swydd gyhoeddus wneud dewisiadau yn ôl haeddiant.
4. Atebolrwydd – Mae'r rhai sy'n dal swydd gyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd, a rhaid iddyn nhw gydymffurfio ag unrhyw brosesau craffu sy'n briodol i'w swydd.
5. Bod yn agored – Dylai'r rhai sy'n dal swydd gyhoeddus fod mor agored â phosibl ynglŷn â'u holl benderfyniadau a gweithredoedd. Dylen nhw roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar wybodaeth oni bai ei bod yn gwbl amlwg bod angen gwneud hynny er budd ehangach y cyhoedd.
6. Gonestrwydd – Mae gan y rhai sy'n dal swydd gyhoeddus ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi er mwyn diogelu buddiannau'r cyhoedd.
7. Arweinyddiaeth – Dylai'r rhai sy'n dal swydd gyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion yma drwy ddangos arweinyddiaeth ac esiampl.

Bydd hyfforddiant priodol ym meysydd 'ymddygiad' a 'gwrthdaro' yn cael ei ddarparu ar gyfer unrhyw Aelod newydd o'r Bwrdd Pensiynau cyn iddo fynychu ei gyfarfod cyntaf.

**Gwrthdaro Buddiannau**

Mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yn diffinio gwrthdaro buddiannau fel hyn: "*a financial or other interest which is likely to prejudice the person's exercise of functions as a member of the Pension Board (but does not include a financial or*

*other interest arising merely by virtue of membership of the scheme or any connected scheme)*".

Mae gan aelodau'r Bwrdd Pensiynau ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth i Reolwr y Cynllun am wrthdaro buddiannau a gofyn am gyngor cyfreithiol os oes angen.
At ddibenion tryloywder ac ymddwyn yn agored, dylai aelodau'r Bwrdd Pensiynau gadw cofrestr o fuddiannau.

Pe bai achos o wrthdaro buddiannau, gellid rheoli hynny wrth i'r aelod gadw draw o'r drafodaeth berthnasol, neu ei fod yn ymddiswyddo o'r Bwrdd Pensiynau hyd yn oed os yw'r gwrthdaro buddiannau mor ddifrifol fel nad oes modd rheoli'r sefyllfa mewn unrhyw ffordd arall.

Ystyrir nad yw aelodau o Banel Cynghori Buddsoddi a Gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn gymwys i fod yn aelodau o'r Bwrdd Pensiynau gan y byddai hynny'n gwrthdaro â'u swyddogaeth fel cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn i'r Swyddog Adran 151.

Serch hynny, mae Aelodau'r Panel yn gymwys i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Pensiynau er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu gwybodaeth gan y Panel a'i is-grwpiau ac i drosglwyddo materion perthnasol yn ôl.

Mae Polisi Gwrthdaro Buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiynau ar gael ar wahân.

**Hawliau Pleidleisio**

Mae Byrddau Pensiwn Lleol yn cynorthwyo Rheolwr y Cynllun i sicrhau cydymffurfiaeth a dulliau gweithredu effeithlon ac effeithiol. Does gan y Bwrdd Pensiynau ddim pwerau penderfynu, sy'n cael eu dirprwyo i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn o dan A101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r Bwrdd Pensiynau yn gallu pleidleisio ar faterion sy'n berthnasol i'w swyddogaeth yn unol â diffiniad adrannau 5(1) a 5(2) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

Mae gan bob aelod o'r Bwrdd Pensiynau hawliau pleidleisio cyfartal, ond bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw os yw'r bleidlais yn gyfartal.

**Swyddogaeth Cynghorwyr**

Caiff cynghorwyr proffesiynol roi cyngor i'r Bwrdd Pensiynau, os yw'r aelodau'n cytuno i hynny, yn ymwneud â chwmpas eu penodiad a lefel eu ffioedd, yn unol â'r gyllideb gytunedig.

**Swyddogaeth Swyddogion**

Bydd swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddiaeth a gwybodaeth i'r Bwrdd Pensiynau yn ôl y gofyn.

Bydd cynrychiolydd o Banel Cynghori Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Pensiynau er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu gwybodaeth a hysbysu'r Panel am unrhyw faterion perthnasol.

**Gwybodaeth a Sgiliau**

Yn unol ag A248A o Ddeddf Pensiynau 2004, rhaid i bob aelod o'r Bwrdd Pensiynau fod yn gyfarwydd â'r canlynol:

- deddfwriaeth a rheoliadau sy'n berthnasol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol,
- unrhyw ddogfen sy'n cofnodi polisïau'n ymwneud â gweinyddu'r gronfa.

a deall a gwybod am y canlynol:

- y gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau, ac
- unrhyw faterion eraill sydd wedi'u pennu mewn rheoliadau

Dylai aelodau o'r Bwrdd Pensiynau ddeall bod eu cyfrifoldebau cyfreithiol yn cychwyn ar y dyddiad y byddan nhw'n ymuno â'r Bwrdd, a bod angen iddyn nhw fynd ati ar unwaith i ddarllen y dogfennau uchod.

Serch hynny, mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod y bydd angen cymorth a hyfforddiant ychwanegol ar aelodau newydd yn ystod y misoedd cyntaf er mwyn eu helpu i ddatblygu'r lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth.

**Diogelu Data**

Ystyrir mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Rheolwr y Cynllun' yw'r "Rheolwr Data" o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

**Cyllideb**

Bydd Rheolwr y Cynllun yn pennu cyllideb briodol i ddarparu hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiynau, talu 'Cynrychiolwyr Aelodau' y Bwrdd Pensiynau sy'n derbyn taliadau a sicrhau bod modd defnyddio gwasanaethau cynghorwyr.

**Atebolrwydd**

Bydd y Bwrdd Pensiynau yn atebol ar lefel gyfunol ac yn unigol i Reolwr y Cynllun.